

CYNNIWYS

Cyflwyniad: I ffwrdd â ni! 5

Sut i ddefnyddio'r llyfr hwn 8

Hanes 11

Oes 'na Dduw?

ABCh 19

Sut un yw Duw?

Ffiseg 27

Ydi Iesu wir yn Dduw?

Bioleg 35

Pam mae angen i mi drafferthu gyda Duw?

Mathemateg 43

A oes bywyd ar ôl marwolaeth?

Saesneg 51

Sut mae gwybod bod hyn yn wir?

TG 59

Beth y mae'n rhaid i mi ei wneud?





Stori Kristina

Dw i'n credu yn Nuw achos dw i ddim yn credu y gallai'r byd 'ma fod wedi'i greu ar ddamwain. Mae yna gymaint o harddwch, manylion ac amrywiaeth ac mae hynny'n dweud rhywbeth wrthym am gymeriad Duw.

TWENTY
PILOTS



SUT DUN
YW DUN?

ABCh



Yn gyffredinol, dwi'n meddwl bod rhai pynciau yn yr ysgol yn cael eu cyfrif yn llai pwysig na rhai eraill. Dw i'n cofio llawer o athrawon fy ysgol i, ond rhaid i mi gyfaddef nad oes gen i syniad pwy oedd yn dysgu ABCh i ni. Yn wir, dwi ddim ym meddwl mod i erioed wedi deall yn iawn beth oedd ABCh.



Ond dw i'n cofio un wers ABCh yn iawn. Un gydag athro cyflenwi.

Wrth edrych yn ôl, mae'n rhaid ein bod ni'n wirion iawn ond, ar y pryd, roedd i'w weld yn syniad da. Roedd rhywun wedi clywed pe bai gwahanol blant yn dechrau hymian yn dawel fesul un, fyddai'r athro ddim yn gallu dweud pwy oedd yn hymian. Felly, gallen ni osgoi gweithio a chael hwyl ar draul yr athro am wers gyfan. Wrth gwrs, gan mai athro cyflenwi oedd gennym, fyddai dim y gallai ei wneud am y peth.

Roedd yn hwyl am funud neu ddwy. Dechreuodd rhywun hymian, wedyn dechreuodd rhywun arall. Cyn hir, roedd y dosbarth cyfan yn hymian gyda'i gilydd. Ac er mai dim ond hwyl oedd hyn i fod, bu'n rhaid i'r dosbarth cyfan aros i mewn dros yr awr ginio.

Dw i'n meddwl bod llawer o bobl yn credu bod Duw, os yw'n bodoli o gwbl, yn debyg i'r athro cyflenwi - naill ai'n cael pleser o'n cosbi rhag i ni gael hwyl a/neu yn methu gwneud llawer am ddim byd o gwbl.

Yn y bennod hon, rydyn ni'n mynd i edrych ar stori arall o Efengyl Luc. Tua 30 mlynedd ar ôl ei eni, nid athro ABCh oedd Iesu, ond roedd yn sôn am un wers sy'n bwysig iawn yn ein bywydau. Mae'n awyddus i ni feddwl am ystyr bywyd a sut un yw Duw mewn gwirionedd.

DARLLENWCH...

Luc 15:1,2,11-24

STOPIWCH A MEDDWL...

Am beth mae Iesu'n cael ei feirniadu ar ddechrau'r darn?

Sut rydych chi'n credu y byddai'ch teulu'n ymateb pe baech chi'n gofyn am gael eich rhan chi o'r pethau a'r arian a gewch ar ôl i'ch rhieni farw yn awr?

Beth sy'n annisgwyl am y ffordd y mae'r tad yn ymateb pan ddaw ei fab adref?

**Mae'r tad yn stori Iesu yn ddarlun o Dduw.
Beth mae hyn yn ei ddysgu i ni am Dduw?**